
theWI INSPIRING WOMEN

YSBRYDOLI MERCHED SyM

DIM MWY O drais yn erbyn merched

# Gweithredwch i roi terfyn ar drais yn erbyn menywod

## Trosolwg o'r ymgyrch



- Mae FfCSyM wedi bod yn ymgyrchu dros ddileu trais yn erbyn menywod ers 2008; yn codi ymwybyddiaeth o natur, maint ac effaith pob math o drais yn erbyn menywod.
- Ers 2012, mae FfCSyM-Cymru wedi bod yn gweithio gyda chyn aelod y Senedd Joyce Watson ac eraill i ymgysylltu cynghreiriaid i wneud yr addewid Rhuban Gwyn i beidio byth â defnyddio, esgusodi neu aros yn ddistaw am drais gan ddynion yn erbyn menywod.

## Beth yw ystyr trais yn erbyn menywod?

- Camdriniaeth systematig o hawliau dynol sylfaenol menywod a math o wahaniaethu yn erbyn menywod yw trais yn erbyn menywod. Mae'n achos ac yn ganlyniad i anghydraddoldeb.
- Mae'n cynnwys cam-drin domestig, treisio a throseddau rhywiol eraill, rheolaeth drwy orfodaeth, stelcio, trais ar sail 'anrhydedd' (gan gynnwys priodas dan orfod ac anffurfio organau cenhedlu benywod), troseddau a gyflawnwyd ar-lein ac aflonyddu cyhoeddus/yn y gweithle.

## Niferoedd trais yn erbyn menywod

- Mae'r heddlu yn cofnodi 3000 o droseddau o drais yn erbyn menywod a merched bob dydd yn y DU.
- Amcangyfrir bod 2.2 miliwn o fenywod yng Nghymru a Lloegr wedi dioddef cam-drin domestig yn ystod y flwyddyn yn gorffen Mawrth 2025.
- Mae pedair ym mhob pum menyw yng Nghymru wedi dioddef aflonyddu rhywiol o ryw fath yn y gwaith. (Cymorth i Ferched Cymru)
- Mae 75% o ferched 12 - 21 oed yn y DU wedi dioddef aflonyddu rhywiol cyhoeddus o ryw fath yn ystod eu bywydau. (Plan International UK)

**Mae dwy fenyw yn cael eu llofruddio bob wythnos yn y DU gan bartner neu gyn-bartner.**

**Yn fyd-eang, bydd 1 o bob 3 menyw yn profi trais corfforol neu rywiol yn ystod eu hoes.**

## Pam cynnwys dynion?

- Mae rhoi terfyn ar drais yn erbyn menywod yn fusnes i bawb - gall dynion fod yn gynghreiriaid, modelau rôl a chyfryngau newid.
- Mae'r cyfrifoldeb ar droseddwyr i newid ymddygiadau; dylai cymunedau hyrwyddo diwylliant lle nad oes unrhyw oddefgarwch o gwbl o anghydraddoldeb, rhywiaeth, casineb at fenywod a merched, a thrais yn erbyn menywod.

## Beth allwch chi ei wneud?

- Gwisgwch ruban gwyn a gwnewch yr addewid rhuban gwyn.
- Dewch yn Lysgennad neu Gefnogwr Rhuban Gwyn.
- Sefydlwch gysylltiadau gyda'ch SyM/Ffederasiwn leol.
- Addysgwch eich grŵp: Neilltuwch gyfarfod i drais yn erbyn menywod a gwahoddowch siaradwyr arbenigol/SyM.
- Dechruwch sgwrs am berthnasoedd diogel, cyfartal ac iach; rhannwch wybodaeth trwy eich cylchlythyron, cyfarfodydd a digwyddiadau cymunedol.
- Hyrwyddwch y linell gymorth Byw Heb Ofn.
- Dangoswch eich ymrwymiad yn gyhoeddus: cyhoeddwch datganiad/ blog neu drefnwch gyfle tynnu llun yn gwisgo rhubanau gwyn.

Llinell Gymorth Byw Heb Ofn | Live Fear Free Helpline
0808 80 10 800
ffôn • tecst • sgwrsio byw • ebost
call • text • live chat • email

## Enghreifftiau o ymgysylltu cymunedol

- Ffederasiwn Sir Benfro: ymgysylltwyd â Chlwb Rygbi Arberth, Clwb Rygbi Abergwaun ac Wdig a Sied Dynion Yr Eglwys Lwyd.
- Ffederasiwn Powys Brycheiniog: ymgysylltwyd â chorau (e.e. Côr Meibion Aberhonddu a'r Ardal a Chôr Meibion Talgarth), ynghyd â Bowlio Penlan a Chyngor Tref Aberhonddu.
- Cefnogwyr 2023-2024: Criced Morgannwg, Clwb Pêl Droed Dinas Caerdydd, Tîm Hoci Ia Diawled Caerdydd; Cymdeithas Corau Meibion Cymru.



*Clwb Rygbi Abergwaun ac Wdig*



*Diawled Caerdydd*



*Criced Morgannwg*

## Adnoddau a Chefnogaeth

- Adnoddau SyM gan gynnwys posteri a phecyn gweithredu (sganwich y côd QR isod)
- White Ribbon UK: https://www.whiteribbon.org.uk/
- Ymgyrch Sound: https://www.gov.wales/sound
- Byw Heb Ofn (help a chymorth 24/7): https://gov.wales/live-fear-free
- Gwasanaethau cymorth ledled Cymru: https://tinyurl.com/38t2edd7

I ddarganfod mwy a chymryd rhan, sganwich ein côd QR neu ewch at https://www.thewi.org.uk/wi-in-wales/campaigns/no-more-violence-against-women

I gysylltu â swyddfa FfCSyM-Cymru, ebostwich walesoffice@nfwi-wales.org.uk